YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

OL TRAED AR Y LLWYBRAU GYNT.
DIWEDD IANTO (*Parhad*).
Y CYRDDAU BLYNYDDOL.
HUNANGOFIANT TORRWR BEDDAU.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. XXXVII

Medi 1937

Rhif 9

YR YMOFYNNYDD

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

COFIANT GWILI

E. CEFNI JONES

Pris 5s. (Drwy'r Post, 5s. 6c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

LLYFR OLAF IDWAL JONES

Cerddi Digri' Newydd

A Phethau o'r Fath.

Pris 3s. 6c. (Drwy'r Post, 3s. 9½c.)

Y mae mwy o sbri yn hwn nag a oedd yn y CERDDI DIGRI'

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXVII. MEDI, 1937 RHIF 9.

Ol traed ar y llwybrau gynt.

OL troed, dyna i gyd, ond yr wyf yn adnabod ei llun yn y llaid sych, a gwn y gôf a hoeliodd y bedol. Ni wn i ddim i beri hiraeth fel cerdded y llwybrau gynt a chanfod ÔL TROED wedi aros er bod yr un a'i gwnaeth wedi mynd. Nid yw ond megis ddoe, a minnau yn cerdded yr un hen lwybrau, ac yn gweld ÔL TROED ; ie yr ôl troed wedi aros er bod *rhywun* wedi mynd. Dychmygwch y darlun. Ol llawer troed i'w gweld, ond y llygad yn mynnu gweld un ôl rhagor i'r llall. Slawer dydd yn nyddiau ysgol yr own yn falch o'r hen lôn fach, a dwylo halog y byd heb ei charregu. Gannoedd o weithiau wrth ddod adre o'r ysgol y darllenwn yr olau—yr hen lôn oedd llawysgrif bore oes. Yma y medrwn wybod, heb holi, helynt y dydd yn ein tŷ ni, ac o ganfod ôl troed mam ar yr hewl, dyna chwilio er gweld a gawn ôl ei throed yn dychwelyd cyn i mi ddod adre. Chwarae teg iddi, anaml iawn, os byth y cefais y drws yng nghlo. Yr oedd hi yno, a briw i'm bron yw cerdded y llwybrau gynt oherwydd disgwyl cwrdd â hi bob cam.

Yn fy myw y caf lonydd gan y disgwyl, ac aml i dro y mae'r hiraeth yn fy llethu'n lân. Ie, medr ÔL TROED godi'r llen er i mi gael cip ar slawer dydd.

Ar bwys ÔL TROED yr wyf yn ôl ym mro slawer dydd gyda'r anwyliaid a gerais ac a garaf. Nid bob amser y ceir cyfleu i ddangos y cariad y sydd yn cronni ynnom hyd nes y bo yn rhy ddiweddar. Lawer tro yr wyf wedi penderfynu mynd adre, ond o ail-holi, i ble ?

Gwelaf eto lôn fach gul yn y wlad heb ond cerdded mynych i'w chadw'n goch ; dwy rigol ddofn fel rails tren i'r cert, ac fel dau rewyn i'r dŵr glaw : Meillion Spaen bob ochr iddi yn afradu'u

haur, a minnau'n fynych heb geiniog ar fy helw ; y corryn yn gwau'n brysur rwydwe arian dros felyn yr eithin ; y Clatshan Coch fel y wawr yn torri draw, ac ar ben y lôn yr Iet Wen yn arwain adre. Dim ond clywed clonc y dorch yr wyf yn ôl, a'm calon ar dorri oherwydd chwilio am rai a fu yma gynt ond heb eu cael, a ffrindiau bore oes yn marw mâs—" Prin ddau lle'r oedd gynnau gant ". A dyma'r Hen Deilwr, chwim ei droed, iach ei chwerthin, a ffyddlon wedi mynd. Cadw'r drws yr oedd slawer dydd ond gwn ei bod wedi gweld ei sel a gwerthfawrogi ei ffyddlondeb ers llawer dydd bellach.

Rhyw hen gwestiynnau sy'n dod yn ôl ataf fi. Pwy fydd yn gofalu am Gapel Bryn bach mwy? Pwy weithian sydd gyda dosbarth y babanod yn yr Ysgol Sul? Pwy fydd yn berwi a chario dŵr adeg y te-parti? Pwy mor barod i fynd 'fel y mail' ar neges dros gapel ac ysgol sul? Ni bydd Cwrtnewydd yr un mwy heb Deilwr Crosshands, a charwn fod gyda llu o'i hen gydnabod a disgyblion ar lan ei fedd, ond fe'm hangofiwyd i, a thrist i mi oedd darllain yn y papur newydd am ei gladdu.

Y mae gennyf o hyd olwg, ar waethaf popeth, ar yr hen ardal a'r hen gyfeillion.

Cofiaf bob cropyn a llwyn, pob bryn a phant, pob clawdd cyll lle bum yn cneua, a pherthi llysiau duon bach lle bum yn hel llys a phaentio fy nwylo a'm hwyneb—hyfrydwch calon plentyn bob yr un.

Erys yr hen derfynau—yr hen *landmarks*. O gerdded Rhiw Pensarn, a loetran, ac ni fedraf ei cherdded heddiw heb loetran, ac edrych yn ôl dros Gwrtnewydd odditanaf, a daw tafell lled dda o'm bywyd i'r golwg.

Dyma ddylanwadau bore oes—ysgol a chapel ac ardal. Ni wn i fy mod yn fawr o addurn i'r hen ysgol ar lwybrau dysg hwyrach, ond y mae golwg gennyf arni, a da gennyf yn aml weld fy hen athro—George Thomas—yn dod i fyny o Abertawe i wrando arnaf yn ceisio pregethu yn Nhrebanos. Feddyliodd ef ddim slawer dydd y gwnawn bregethwr. Nid oedd ymhell o'i le. Feddyliais innau ddim ychwaith. Ys gwn i beth yw ei feddwl heddiw, ta waeth. Y mae yr hen gapel yn annwyl gennyf o hyd, er mai ynghlwm ag ef y cefais rai o siomedigaethau mwyaf fy mywyd. Er pob siom ni ollyngais afael ar yr hen egwyddorion y clywais sôn amdanynt gyntaf gan y Tywysog yn Israel—Yr Hybarch John Davies Alltyplaca—urddasol ei olwg, rhugl ei barabl ac yn medru cyffro dyn ar weddi.

Cofiaf yn dda am draddodiad rhyddfrydig y fro. Credwn na fedrai neb a anwyd yma beidio a bod yn Rhyddfrydwr. Ni ddwedaf fy mod lawn mor sicr a chynt ar y pen hwn, ond amheuaf eto a fedr y gweithiwr beidio a bod yn *radical* mewn rhyw ystyr neu'i gilydd.

Y mae yn ddiddorol edrych yn ôl er gweld ba ddylanwadau sydd wedi moldio bywyd ardal, a chredaf y medrid yn ôl yn nyddiau ysgol slawer dydd farcio camre llawer un.

Yr wyf yn crwydro. Fan draw saif Moel-Y-Bryn ond ei bod yn foelach tipyn na chynt, a chân Cledlyn wrth ei throed. Gwylltiais droion o wrando dolef y gwdihw o Allt Gelligam ond amheuaf a ŵyr llawer un am yr hen allt honno bellach. Nid yw namyn breuddwyd ddoe weithian.

Draw ar lechwedd y bryn i'r dde y saif mynwent Capel-y-Bryn. Ni welaf mohono ond gwn ei bod yno er bod niwl rhyngom.

O fynd gam ymhellach i fyny'r rhiw, ymrithia hen gyfoedion—plant yr ysgol slawer dydd o flaen fy llygaid.

Ust ! Dyna chwibaniad iach rhywun yn y cae cyfagos. Nid oes dim amdani ond dringo brest y clawdd er gweld pwy sydd yna. Nid oes betruster yn fy meddwl. Tom Pensarn sydd yno yn chwiban ei chalon hi. Meddwl am glonc a disgwyl clywed helynt yr ardal . . . ond . . . nid oedd y chwibanwr yno. Nid oedd y chwiban ond f'atco cyfeiliorn yn chwarae castiau â mi, dyna i gyd, a chofiais na chlywn mo'i chwiban mwy.

Mynd dro wedyn a chyrraedd y Ddeufwlch. Aros yno am hoe fel cynt. Nid oes raid aros yn hir cyn fy mod yn llanc ieuanc fel cynt. Teimlwn frysio yn fy ngwaed ac ofnwn glywed yr un hen gloch. Ni wyddwn mo'r amser ond dyma henafgwr ifanc a'i bwys ar y glwyd. Gwyddwn y cawn yr amser i'r funud ganddo. Codai ymyl ei wasgod yn hamddenol a thynnai'i *watch* o boced na welais i mo'i thebig. Carwn pe bai gennyf innau boced gudd felly. Dyna fan diogel i gadw fy holl drugareddau. Wedi ei chael allan, daliai hi o'i flaen gan roi imi'r amser reit, a buasai yn well gennyf amau i'r haul godi yn rhy fore nag amau'r *watch* honno. Y mae yr hen gyfaill ffyddlon wedi mynd adre, ond credaf bod yr hen *watch* ac yntau wedi cadw AMSER REIT ar hyd yr holl daith hir. Ffarwel, hen ffrind, meddwn, gan droi i fynd, ond nid oedd ef yno ond credaf bod rhyw gysgod ar bwys yr iet o hyd i nodi'r fan lle y bu yn pwyso.

Ychydig yn nes i fyny mae BWLCH CAE MAWR. Nid wyf yn siwr na Chae Gwyntog y'i galwem ni ef slawer dydd, oherwydd pan fai'r storm yn torri, ofer oedd chwilio cysgod yma. Gyda llaw, yr ym yn byw yn oes y bomio ond yma y clywais i yr unig *shell* yn chwiban heibio imi. Dod adref o'r ysgol yr oem a hen labrwr yn troi tomen o bridd a chalch ym mwlch Cae Mawr. Ni wyddwn i a wyddai eraill. Gwaeddais yn fy niniweidrwydd enw ar yr hen labrwr, a chyn i mi ond megis troi, clywais garreg fawr yn chwiban heibio fy nghlust. Pe bai yr hen ŵr wedi medru hitio'n gywirach, digon tebig na byddwn i wedi codi croen llawer un—yn fy niniweidrwydd eto cofier—ar dudalennau'r YMOFYNNYDD.

Rhaid brysio bellach a throi i ben y lôn. Y mae bron yn borfa lâs, ac ofer fy nghais pwy ddydd i ddod o hyd i ôl troed er chwilio. Y mae hyd yn oed yr ôl troed wedi mynd, a dim yn aros dim ond dylanwad rhywun ar feddwl a chalon un a gâr bethau goreu yr hen fro heddiw a byth. . . . Ie, dim ond ÔL TROED ar laid sych hen lôn gul fach yn y wlad yn agor clwyf a chodi craith na fedr un meddyg mo'u trin.

O.

Diwedd Ianto.

Gan J. SEYMOUR REES.

(*Parhad o Rhifyn Awst.*)

NI chafwyd dim o werth ym mhocedi Ianto ag eithrio llythyr oedd a'r papur yn ddu fel muchudd. Agorais ef a gwelais, er fy syndod, mai mewn Cymraeg yr ysgrifennwyd ef. Rhoddwyd caniatâd i mi gan y cwmni i gadw hwn er cof am yr amgylchiad. Felly gosodais ef yn ddiogel yn fy mhoced i'w ddarllen yn ofalus ar hamdden.

Awd â'r corff allan yn ddefosiynol, a phan osodwyd ef yn y bedd yr oedd yr haul ar gilio dros y gorwel.

Ar yr awr honno teimlai pawb o'r cwmni yn anfodlon i daflu'r pridd ar wyneb y marw. Dechreuwyd siarad a chasglu atgofion.

" Rown i yma y dydd cyntaf y gweithiodd yn y mwnglawdd hwn," meddai un.

" Yn fy nghaban i y cysgodd dros yr wythnos gyntaf," meddai un arall.

" Druan o Ianto," oedd geiriau un arall. " Mi dreuliais i oriau yn ei gwmni o bryd i'w gilydd."

" Edrychwch arno," meddai un arall, " mor gryf yr ymddengys. Yr oedd ei freichiau fel darnau o haearn. Efe oedd y cryfaf o bawb yn y mwnglawdd."

" Chware teg iddo," ebr un arall wedyn, " beth bynnag allwch chi weyd yn ei erbyn yr oedd yn weithiwr caled. Medrai weithio fel dyn—ac yfed fel anifail. Siaradodd un o edmygwyr Ianto gan roi canmoliaeth uchel iddo fel cyfaill.

" Wrth gwrs," ychwanegai, " mi wn fod iddo feiau. Ond pwy sydd hebddynt. Druan ohono. Ychydig oriau yn ôl safai ar y darn tir y gorwedd ynddo yn awr."

Yn y dull hwn cesglais lawer o ffeithiau am y dyn marw. Deellais hefyd ei fod yn ŵr dysgedig, ond mai ei bechod parod oedd ei hoffter o gwrw a benywod.

Cafwyd ychydig dawelwch, a defnyddiwyd hwnnw gan bob aelod o'r cwmni i ddyfalu ynglŷn â phroblemau pwysig bywyd.

" Wn i," gofynnai un, " a yw ei ysbryd yn hofran o'n cylch yn awr i'n gwylio ? "

Naturiol oedd y gofyniad, oherwydd yn y gwyll hwnnw teimlem oll ddifrifoldeb bywyd. Yn symudiad sydyn Ianto fe'n rhybuddiwyd ni o'n hymadawiad ninnau.

Pwysodd dau beth ar fy meddwl innau. Anodd oedd imi sylweddoli fod corff a fu mor grwydrol trwy gydol ei oes yn medru gorffwys heno mewn bedd. Yn unigrwydd ei wely newydd caled i gorff Ianto, mi debygwn, oedd bod ar wahan i'w gymdeithion. Yn ei fywyd, yn ôl pob tystiolaeth, hoffai gwmni. A lle unig yw'r bedd, efallai i un o gyffelyb ysbryd.

Anodd hefyd oedd i ysbryd Ianto ddygymod â'i gyflwr newydd a rhydd oddiwrth ei hen was a'i garchar. Bellach yr oedd iddo ei hynt fel aderyn gwyllt yn hedfan drwy'r byd, heb nythu yng nghartrefi dynion. Wn i—a oedd efe yn brudd ? Efallai, hefyd ei fod yn llawen.

Y syniad cyffredin gan bawb o'r galarwyr oedd na fedrai Duw fod yn galed wrth Ianto, druan. Mae'n wir iddo afradu ei gymeriad a'i wybodaeth trwy fyw i'w flysiau a'i chwantau. Amlwg hefyd yw iddo dalu ei benyd yn ei hoedl.

Mae gweithio yn galed, byw yn galed, marw yn galed a mynd i uffern yn y diwedd yn ofnadwy o galed. Syniadau o'r fath a glywais yn ffurfio'r gwasanaeth claddu i Ianto.

Gosodwyd napcyn dros ei wyneb fel na fedrai'r ddaear gyffwrdd â'i gnawd. Gyda rhawiau rhoddwyd pridd dros y corff yn ofalus a thyner, gan godi twmpath destlus i nodi'r fan.

Nid oedd gennym ddrylliau i'w saethu, ac ni fedrem offrymu gweddi. Y rheswm am hynny oedd mai morwyr oeddem, ac fod Ianto, weithian, y tu hwnt i ni.

Y fi oedd y diweddaf i adael y bedd. Sefais yno wrth reddf gan ryw hanner credu mai Cymro oedd Ianto. Os felly myfi oedd y prif alarwr. Yn y gwyll hwnnw dyfelais lawer. Gwyddwn fod iddo rieni. Ai byw hwy heddyw ?

Ergyd ddidostur i'w dad a'i fam fuasai clywed am ddiwedd erchyll eu mab. Bernais mai bendith iddynt fuasai aros hyd ddydd y farn heb glywed y stori bruddaidd hon. O'm rhan i bydd clo am byth ar fy ngwefusau.

Cerddais yn ôl i'r tŷ tafarn at y cwmni. Erbyn hyn yr oedd chwant bwyd arnaf. Rhoddwyd bara a chaws a chwrw o'm blaen, a chymerais yn helaeth. Ymhen awr cenais yn iach i'r cwmni a dychwelais i'r llong. Chwiliais am dawelwch y *fo'castle*. Yr oedd pawb yn eu gwely. Felly cefais gyfle i ddarllen cynnwys y llythyr a gafwyd ym mhoced Ianto. Cynnyrch cyfaill o forwr ydoedd. Cyfeiriwyd ef o bentref Ffos y Ffin. Nid oedd dim o bwys arbennig

yn y llythyr ond ychydig o newyddion lleol. Dywedid hefyd fod mam Ianto mewn iechyd da ac yn disgwyl am ddychweliad y mab.

Tywyll i mi oedd dwy frawddeg neu dair am ryw helynt yn "Frisco". Mae'n debig mai hwn oedd cynnwys y bennod wael honno ym mywyd Ianto.

Ag eithrio hyn nid oedd ddiddordeb yn y llythyr o gwbl. Cedwais ef er mwyn cofio'r cyfeiriad.

Cyn inni hwylio o'r porthladd penderfynais fynd am dro eto i dafarndy'r mwnglawdd arian. Medrwn ei weled o fwrdd y llong. Ac ar lawer awr yn y nos syllais i gyfeiriad y tŷ. Cadwyd y digwyddiad yn fy nghof yn fyw. Perthyn dirgelwch i lawer digwyddiad mewn bywyd. Mae marwolaeth Ianto yn un o'r cyfryw.

O'm rhan i caiff y gyfrinach aros am byth yn fud wrth wreiddiau'r binwydden unig a than gysgod ei changau llednais hi.

Cymdeithas Undodaidd Gymreig.

Y PWYLLGOR BLYNYDDOL.

CYNHALIWYD Pwyllgor Blynyddol y gymdeithas uchod yng Nghribyn Mercher, Awst 11, gyda'r Llywydd, y Parch. D. Evans, Cwmiago yn y gadair. Cymerwyd y rhannau defosiynol gan y Parch. E. R. Dennis. Cyfeiriodd y Llywydd at y golled drom a gafwyd ym marwolaeth y Prifathro J. Park Davies, M.A., B.D., a gofynodd i'r gwyddfodolion sefyll ar eu traed am ennyd o barch i'w goffadwriaeth ac o gydymdeimlad â'i deulu.

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol.

Adroddiad y Trysorydd. Yr oedd yn un pur foddhaol a dywedai Mr. Jones mai i ganghennau Urdd y Benywod yr oedd y diolch yn bennaf am hynny. Achwynai nad oedd yr oll o'r cynulleidfaoedd yn gyrru i fewn yn hollol y gyfran (*quota*) a ddisgwylid oddiwrthynt, ac apeliai am welliant yn y cyfeiriad hwn. Ar gynygiad y Parch. S. E. Bowen derbyniwyd yr adroddiad yn ddiolchgar.

Gwasanaethau Cymraeg yn Llundain. Cafwyd ar ddeall fod Undodiaid Llundain yn foddlon mynd i'r draul o drefnu gwasanaethau Cymreig yn achlysurol os cant gydweithrediad y cynulleidfaoedd yng Nghymru. Penderfynwyd apelio at y cynulleidfaoedd i gasglu enwau a chyfeiriadau aelodau ac sydd wedi ymadael am y Brifddinas, a'u gyrru, os yn bosibl erbyn diwedd Awst, i'r Ysgrifennydd fel y gall efe eu trefnu a'u danfon i ben eu taith. Addawodd y gweinidogion fynd i fyny yn eu tro i gynnal y gwasanaethau.

Safon derbyniad i Goleg Caerfyrddin. Wedi llawer o siarad pasiwyd ar gynygiad y Parch. D. Evans yn cael ei eilio gan y Parch. T. Oswald Williams ein bod yn glynu wrth y penderfyniad wnawd yn y Cyrddau Blynyddol yng Nghapelyfadfa yn 1935, yr hwn a saif fel hyn : " Cyn y gall ymgeisydd gael ei gymeradwyo i'r Coleg ei bod yn ofynnol iddo basio arholiad y *Matriculation*, ond fod hawl gan Bwyllgorau'r Myfyrwyr laesu ychydig ar y rheol hon os teimlant fod yna resymau cryfion dros wneud hynny."

Yr Ymofynnydd. Er lleihau'r draul ynglŷn ag argraffu a dosbarthu ein bod yn argraffu 100 copi'n llai nag arfer ac yn cwtogi nifer y *free copies.*

Golygydd Yr Ymofynnydd. Yn hytrach nag apwyntio Golygydd newydd etholwyd Is-bwyllgor o chwech—sef y Parch. D. Evans, Mr. W. S. Jones, y Parchn. E. O. Jenkins, J. D. Jones, J. M. Thomas a T. O. Williams, i ystyried y mater a dod ag adroddiad i gwrdd yr Hydref.

Cynygiadau gan Dr. William Griffiths. Gosododd chwech o benderfyniadau gerbron y cyfarfod : (1) Fod pregethwr yn cael ei ddewis flwyddyn ymlaen i draddodi pregeth yn y cwrdd blynyddol nesaf ar bwnc arbennig. (2) Er mwyn adeiladaeth y dô ieuanc ein bod yn gofyn i'r brodyr a enwir ymdrin â'r pynciau dilynol yng Nghyrddau'r Gymdeithas o dro i dro :—

Cyfres I.—" Gwasanaeth Gwilym Marles i Grefydd " : Parch. T. Oswald Williams.
" Rhyddid mewn crefydd " : Parch. J. D. Jones.
" Ein Breintiau arbennig " : Parch. E. O. Jenkins.
" Ffyddlondeb i'n hegwyddorion " : Parch. Lewis Williams.

Cyfres II.—" Duw Cariad yw " : Parch. E. G. Jones.
" Hawliau Crefydd ar ieuenctid " : Mr. T. Bryn Jones.
" Ein cenadwri " : Parch. J. Marles Thomas.

(3) Bod ambell un o gyrddau'r Gymdeithas i'w gario ymlaen gan frodyr a chwiorydd lleyg. (4) Ein bod yn gwneud ymdrech i ledu ein terfynau drwy gynnal cyrddau yma a thraw yn y sir a thrwy wasgar ein llenyddiaeth. (5) Bod ein heglwysi yn trefnu dosbarth i hyfforddi ieuenctyd ar fater penodol o dymor i dymor. (6) Bod Gohebydd cyffredinol yn cael ei benodi i drafod materion perthynol i Gymru yn yr '*Inquirer*'.

Pasiwyd ein bod yn mabwysiadu'r oll ohonynt—rai o honynt (1), (2) a (6) yn union deg a'r gweddill fel y gwna cyfle godi. Penodwyd Dr. Griffiths ei hun i bregethu'r bregeth benodedig yn y cyfarfodydd blynyddol nesaf a'r Parch. T. Oswald Williams i roddi anerchiad ar " Wasanaeth Gwilym Marles i grefydd " yng Nghyrddau'r Hydref a phenodwyd y Parch. J. D. Jones yn ohebydd i'r '*Inquirer*'.

Perlau Moliant. Pasiwyd gostwng pris hwn i unrhyw gynulleidfa a rydd archeb am 12 copi neu ragor fel hyn—y llyfr 4/6 am 3/- yr un, 5/6 am 4/-, a'r un 7/6 am 6/-.

Coleg Caerfyrddin. Teimlid ei bod o'r pwys mwyaf i gael Cymro a hwnnw mewn cydymdeimlad â gwaith y weinidogaeth i fod yn olynydd i'r diweddar Brifathro J. Park Davies a chytunwyd fod apêl daer yn cael ei gwneud at yr awdurdodau ar iddynt i wneud cais egnïol i sicrhau gwasanaeth Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc. Trefnwyd y Parchn. D. Evans a T. Oswald Williams i dynnu llythyr allan i'r perwyl hynny ac fod yr oll o'r gweinidogion i'w law-nodi ar ran y Gymdeithas.

Trefnwyd gofyn i'r cyfeillion yng Nghapelycwm i dderbyn Cyfarfodydd yr Hydref.

Swyddogion. Etholwyd Mr. John Hopkin, Trebanos yn Llywydd, a'r Parch. J. Evans, B.A., Aberystwyth yn Is-lywydd. Ail-etholwyd y swyddogion eraill.

Cyflwynodd y Parch. Lewis Williams ddiolch i'r Llywydd am ei wasanaeth ac i gynulleidfa'r Cribyn am dderbyn y Cyrddau. Pasiwyd fod yr anerchiad ddylasai'r Llywydd fod wedi ei thraddodi i ymddangos yn YR YMOFYNNYDD.

E. O. JENKINS.

Hunangofiant Torrwr Beddau.

(*Buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru, Abertawe, 1926.*)

Gan y PARCH. J. SEYMOUR REES.

PROLOG.

YN Awst 1925 digwyddais, yn ôl fy arfer ers blynyddoedd, fwrw'm gwyliau mewn pentref o'r enw Llan Gregyn, yng Ngheredigion.

A mi'n crwydro nepell o'r traeth cerddais at drothwy bwthyn taclus. Cyfarchwyd fi gan Elin, nith i Domos Ifans, hen dorrwr beddau, ffraeth ei dafod ac amryw ei ddoniau.

Wedi sôn am hyn ac arall, deuwyd at destun a'm diddorai. Dywedodd Elin iddi ddyfod, yn ddiweddar, ar draws toreth o bapurau a ysgrifennwyd gan ei hewythr. Gan y gwyddwn lawer am hoffter yr henwr o lenyddiaeth Gymraeg, ceisiais ganddi i'w cyrchu. Er syndod gwelais i Domos gofnodi ei hanes, yn ei ddull syml a naturiol ei hun. Gosodwyd ganddo'r deunydd dan yr enw—" AR GOF A CHADW ".

Weithian, wedi trefnu a chaboli yn ôl fy niwyg fy hun, manteisiaf ar y cyfle hwn i ddwyn cynhyrchion Tomos Ifans i "Wyneb Haul—Llygad Goleuni."—'Y Golygydd'.

(Copi o'r wyneb-ddalen.)

"AR GOF A CHADW.

TOMOS IFANS. HIS BOOK.

Ion. 1921."

RHAGAIR.

MAE gan bob bywyd ei fynwent. Ynddi, cleddir holl ddigwyddiadau oes. Dodir hwy yn eu lle gan ddwylo Amser, a chodir arnynt feini i nodi'r fan y gorweddant. Nid marw mohonynt, eithr cysgu y maent.

Pan fyddo'r cof ar grwydr dihunant yn llawn asbri a nwyf. Ar amrant, mewn ateb i alwad, atgyfyd angylion yn fuan o briddellau'r gorffennol.

Yn ddiweddar, ar oriau o hwyl a hamdden, cododd chwen yn fy mhen i osod ar glawr rai o'm hatgofion. Wrth imi gerdded yn dawel i'm herw a estyn dros drugain mlynedd a deg, cefais yr hyfrydwch o ail fyw darnau diddorol o'm bywyd.

Ni chredaf y cymer neb, byth, y drafferth i ddarllen y cynhyrchion hyn. Ni amcanaf iddynt wasanaeth uwch na'r pleser a gaf i wrth eu cofnodi.

Os byth y cyrhaeddant ddwylo dieithr, cofied y darllenydd hwnnw mai cynnyrch hen dorrwr beddau sydd ganddo.

Gwir imi drwy fy oes ymhyfrydu'n helaeth ar feysydd Llenyddiaeth fy nghenedl. Ond, ni feddyliais erioed am gyfansoddi dim ar gyfer goleu'r dydd.

Plant a anwyd i'm llonni yn nawnddydd fy oes yw'r atgofion hyn.

Fel plant yn gyffredin,—rhoddant lawenydd a thristwch.

* * *

PENNOD I.

Hyfforddwyd fi yn fy nghrefft gan fy nhadcu, Siams Ifans, Llan Gregyn yng ngodre Ceredigion. Torrwr beddau a cheidwad mynwent yr Eglwys Sefydledig yno oedd ef.

Yn blentyn, danfonwyd fi am wythnosau o bob gaeaf i ysgol elfennol a gedwid gan Robin, hen soldiwr un-goes. Dysgais y ffordd i ddarllen a chyfrif yn weddol gywir dan ei lygad ef.

Treuliais y gweddill o'r misoedd gan gynorthwyo fy nhadcu. Wrth imi dyfu'n llanc cydnerth, sylwais fod ysgwydd yr hen ŵr yn camu, a'i gam hefyd yn arafu.

Pan dyfais yn ddeunaw oed taflwyd fi i gryn drafferth. Mynnai Mr. Jones, rheithor y plwyf, imi baratoi ar gyfer yr offeiriadaeth. Gan y tybiwn na feddwn ar allu meddyliol, doniau ymadrodd nag adnoddau ariannol, dadleuais yn gryf yn erbyn yr anturiaeth.

Yn fuan, codwyd y pwnc i sylw ar yr aelwyd. Mynegais innau y dylaswn ddilyn fy nhadcu fel torrwr beddau.

" Na," meddai'r hen ŵr. " Rhaid it gael gwell gwaith na ny—ne tene fydd dy gawl di."

" A beth am y môr, te ? " gofynnais.

Ar hyn, edrychodd yr hen wraig, fy mamgu, i'r ffenestr a dywedodd—" Glyw di e'n rhuo ? . . . Fe a'th a dy dad, druan, yn ysglyfeth."

Y darn nesaf o'r cynllun oedd fy nanfon i Ysgol Ramadegol Ystrad Meurig. Wedi wyth mis yn fy nghylch newydd, ynghanol pryderon a gobeithion, daeth gorchymyn imi droi adref ar unwaith. Cyrhaeddais mewn pryd i gael gair neu ddau o wefus fy nhadcu cyn iddo dewi am byth yn yr Angau.

Bellach, yr oeddwn ar groesffordd . . . heb galon na llygad i ddewis fy llwybrau i'r dyfodol. Ar ben pythefnos sylweddolais na fedrwn gefnu ar fy mamgu yn ei hunigedd. Mynegwyd fy helynt wrth Mr. Jones, yr offeiriad, a bodlonodd yntau imi ail gychwyn fel torrwr beddau ym mynwent yr Eglwys.

Ag eithrio dau ddigwyddiad, cyfnod pleserus iawn fu'r ddwy flynedd nesaf. O dipyn i beth, cryfhaodd fy mamgu mewn iechyd, a llonnodd hynny fy ysbryd innau. Eithr byr fu'r hapusrwydd hwnnw. Dihoenodd yr hen wraig eto dan bwysau llethol ei hiraeth. Ymhen un mis ar hugain ar ôl marwolaeth fy nhadcu, gŵyrodd hithau hefyd i'r bedd.

Yn dilyn, taflwyd fi eto i benbleth. Ar y cychwyn, gwelais mai priodi a ddylaswn.

Bûm yn caru am flwyddyn â Mari, Bron Wylan,—merch i fferm fechan yn yr ardal. A mi'n barod i gynnyg fy llaw a'm calon iddi, dychwelodd Jac y ' Lass '—hen gariad iddi, adref o'r môr.

Un noson, ymhen tri mis i farwolaeth fy mamgu, yn ôl cytundeb, cyfarfyddais â Mari, a chyfaddefais fy mwriad i'w phriodi. Siaradodd hithau drwy'r niwl am dipyn gan gyhoeddi—" Tomos bach, ma hi'n rhy ddiweddar i styried ny, nawr."

" Pam ny, te, Mari ? " gofynnais.

" Wel, i fod yn blaen y ngeire," meddai, " os yw Jac y ' Lass ' yn ddim o ddyn fe fydd yn rhaid iddo mhriodi i."

Effeithiodd y ddyfarniad hon yn ddwys ar fy ysbryd. Gorfod-

wyd fi ar unwaith i werthu'r celfi, rhentu'r bwthyn, a chefnu ar yr ardal.

Crwydrais i Dre'r Glo, yng Ngwent. Gwenodd ffawd arnaf, a chefais waith yn ddioed fel torrwr beddau yn y gladdfa gyhoeddus newydd yno.

Yn ystod y pum mlynedd a deugain, gwyliais gynnydd y lle o ddinodedd hyd enwogrwydd.

Drwy'r cyfnod hwn, unwaith yn unig y cyrchais i Lan Gregyn. Ymhen pum mlynedd o alltudiaeth, treuliais fis o wyliau yno.

Clywais y pryd hwn, gyda gofid, am afiechyd peryglus Mari, Bron Wylan. Achoswyd hyn gan waith Jac y 'Lass' yn ei gadael yn ei gwarth.

"A oes neb wedi gweld cysgod yr hen flagard, byth oddiar ny," meddai Nano, gwraig y gof wrthyf.

Cyn pen pythefnos gwelais angladd yr unig ferch a gerais ac a garaf. Er i gynllwyn Jac a dyrnod angau ei dwyn oddiarnaf, erys fy serch cyn gryfed ati fel na ddenir ef byth eto gan yr un ferch arall.

Dychwelais i Dre'r Glo, a gwrthodais bob awydd am flynyddoedd i dreulio'm gwyliau mwyach yn Llan Gregyn.

Tua diwedd oes, dihunir dyn gan reddf i dynnu eilchwyl tua bro ei febyd. Chwilia am ei lwybrau cyntaf i fod yn hyfrydwch ei ddyddiau olaf hefyd. Bedair blynedd yn ôl, a'm nerth yn gwanychu, daeth hiraeth angerddol i'm calon am Lan Gregyn.

Cefais ddrws agored i'r hen fwthyn gan fy nith, Elin. Yma, mae'n debyg, y treuliaf y gweddill o'm dyddiau—cyn croesi drwy niwl y bedd i'r hedd sydd yn Nheyrnas fy Nhad.

"Mae ngolwg ar y wlad
Sydd uwch gofidiau'r llawr;
Gwlad hoff fy etifeddiaeth rad—
Lle mae fy Mhrynwr Mawr."

Pennod II.

Saif Eglwys hynafol Llan Gregyn ar fryncyn yng ngolwg y môr. O'i chylch, ceir mynwent helaeth sydd yn Fachpela'r gymydogaeth.

Ymestyn fy nghof yn ôl at y dyddiau cynnar hynny y bûm yn chwarae ymysg y beddau. Wedyn, daeth yr amser i drin caib a rhaw. O dipyn i beth, cefais fy nghyfarwyddo gan fy nhadcu i dorri bedd yn raenus.

Wrth adolygu'r cyfnod cyntaf hwn atgofir fi o brudd-der fy nghalon ar rai amgylchiadau. Naturiol oedd hyn yn fynych am yr adwaenir y rhan fwyaf o'r galarwyr. Llawer gwaith y tywelltais ddeigryn cynnes wrth wrando ar Mr. Jones, yn ei wenwisg, yn gosod "daear i'r ddaear, lludw i'r lludw, pridd i'r pridd."

Gydag amser, ymysgydwais o'r cyflwr hwn, ac aeth fy nghalon fel callestr, yn fynych. Dan y dywarchen yno gosodais weddillion marwol ugeiniau o ddynion. Amrywient mewn safleoedd a galluoedd. Gorweddai bonheddig a gwreng yn gydstad yn y gweryd, er mai anhebyg yw'r marmor gwyn caboledig i'r garreg lâs, arw. Gwahanol hefyd yw chwedl pobun ohonynt.

Rhoddais gyrff nifer o forwyr i huno ym mynwent Llan Gregyn. Wedi iddynt ddianc o grafanc yr ystormydd a dychwelyd i fro eu genedigaeth am dangnefedd, ciliasant yn dawel i dŷ eu hir gartref.

Mynych y soniwyd ar y cerrig beddau am longddrylliadau. Ni ŵyr neb am dynged y cyrff fu'n ebyrth. Claddwyd hwy gan donnau aflonydd, a chyhoeddodd oerlais gwylan amddifad y gwasanaeth claddu.

Priodol iawn yw'r englyn hwn er cof am un ohonynt,—

" Iach hwyliodd i ddychwelyd,—ond ofer
Fu dyfais celfyddyd ;
Y môr wnaeth ei gymeryd,
Ei enw gawn,—dyna i gyd."

Gan imi fynd i'r cyfeiriad hwn, cofiaf am un digwyddiad enbyd. Un haf, cafwyd storm ddisymwth ac ofnadwy. Berwodd y môr yn wyllt fel pair, yn gynnar yn y prynhawn. Ganol nos gwelwyd arwyddion bod llong allan ar y tonnau mewn trafferth. Trannoeth, yn blygeiniol, datguddiodd y llanw gyfrinach ar draeth Llan-Gregyn. Cerddais, gan chwilio broc môr, i gilfach, nepell. Yno, gorweddai darn helaeth o long, ac yn rhwym wrtho, ceid benyw. Yn ei mynwes ymguddiai baban. Er i'r fam drengu mewn brwydr am fywyd, eto, byw oedd y plentyn. Rhuthrais i'r pentref gan gyhoeddi imi gael " presant o ddwylo'r môr ".

Ymhen tridiau, wedi trengholiad, gosodwyd corff y fenyw, druan, i orffwys yn y fynwent. Rhyfedd iawn fu'r amgylchiad hwn i'm meddwl i. Cleddais ei chorff mewn darn arbennig o'r fynwent. Cofir yn hir am yr angladd hwnnw gan bawb fu'n bresennol. Rywsut, yr oedd popeth yn ddieithr ac anhygoel yn y gwasanaeth, heb berthynas ymysg y galarwyr.

Ddeng niwrnod wedi'r storm, taflwyd pedwar corff arall ar draeth Llan Gregyn. Claddwyd hwythau gyda pharch mawr yr ardal, yn yr un bedd. Ar fyr, gwnaed casgliad drwy'r gymydogaeth i ddileu'r treuliau, ac i estyn carreg ar y bedd. Nid oes enwau neb arni, eithr gosodwyd yr hanes pruddaidd yn esboniad cryno ar y dirgelwch.

Ag eithrio'r digwyddiad hwn ni ddaeth dim anghyffredin i'm gwaith yn Llan Gregyn. Tebyg i'r angladd diwethaf oedd y nesaf o hyd.

Taflwyd fi i helbul anniben iawn ar un amgylchiad. Daeth cynrychiolydd i deulu parchus yn yr ardal ataf i'r fynwent. Mynegodd am farwolaeth aelod ohono, a dymunodd arnaf i dorri bedd newydd mewn man cyfleus. Siarsodd fi hefyd i wneud gwaith da. Ufuddheais innau ar gyfrif fy adnabyddiaeth dda o'r teulu, ac hefyd y gydnabyddiaeth ychwanegol a estynnwyd.

Oes, y mae gwahaniaeth rhwng bedd a bedd !

Ddeng munud cyn amser yr angladd, cerddais yn ffyddiog at y bedd i gael golwg arno. Edrychai yn hynod o daclus, ac mewn trefn, oherwydd bu'r tywydd yn ffafriol. Yna, cerddais at glwyd y fynwent i gwrdd a'r cynhebrwng. Awd i'r Eglwys am ryw ugain munud. Wedyn, cyfeiriwyd at y bedd. Cyrhaeddwyd hwnnw, ond,—i'm syndod a'm trueni, gwelais i ochrau'r bedd roddi ffordd, a syrthio i mewn iddo. O'r herwydd, teimlais yn wir flin dros y teulu, ac yn siomedig iawn yn fy ngallu fy hun. Gohiriwyd y gwasanaeth am ysbaid o hanner awr, a chwysais innau yn ddiferol dan bwysau'm gwaith a'm cywilydd. Hyd y cofiaf, dim ond unwaith wedyn y daeth y fath anffawd i'm gwaith.

Bu ewythr i'r Dr. Jones, meddyg Llan Gregyn farw mewn gwth o oedran. Cefais orchymyn gan y teulu i dorri bedd graenus. Gwyddwn y telid fi yn anrhydeddus am bob trafferth. Felly, ymegniais. Ar brynhawn o aeaf, gorffenais fy ngorchwyl. Trannoeth, yn y borau bach, cyn imi gael amser i weld fy ngwaith, daeth y meddyg heibio, a gofynnodd—

" Tomos, dangos y bedd i fi, neud di ? "

" Gyda phleser, syr," atebais.

Cyd-gerddasom i'r llecyn, ac i'm gofid gwelais yr hyn a fawr ofnwn. Bu'r rhew yn ddigon angharedig i dynnu'r ochrau i mewn. " Hylo," meddai'r meddyg, gan bwyntio bys at y bedd, " Crefftwr gwael sy wedi bod fan hyn, gwlei."

Mewn amddiffyniad, eglurais innau yr achos, ond tipyn yn hwyrfrydig oedd y Doctor Jones i dderbyn yr esboniad. Wedi iddo ymadael, agorais y bedd eto, gan ei wneud yn sicr yn fy null gorau. Trannoeth ddaeth wedyn. Wrth imi fwyta fy mrecwast, curodd y meddyg wrth y drws.

" Tomos," meddai. " Shwt olwg sy ar y bedd na heddi ? " " Wn i ddim, syr, wir," oedd fy ateb. " Mi âf lan nawr i gal golwg arno." " Mi ddo i genti, te." Hynny a fu. Tarawyd fi â mudandod wrth weled yr ochrau eto wedi llithro i'r bedd. Y meddyg dorrodd y distawrwydd. " Tomos, Tomos, dyma'r ochre miwn, yto." " Odyn, wir, syr." " Crefftwr gwael, crefftwr gwael, myn brain i," oedd ei eiriau nesaf. Ni fedrwn oddef y fath frawddeg, er mai dyn galluog ydoedd y meddyg. Cefais nerth o rywle i ddweud,—" Ond, ma dynion yn marw dan y'ch dwylo chithe hefyd, Doctor."

" Diawch, odyn, gwas ! Dim ond unwaith, cofia di !

Ar ôl y gwersi hyn, bûm yn ddigon gofalus i beidio â phwyso gormod ar olwg dim.

Mae sôn am ochrau'r beddau hyn yn syrthio i mewn yn dwyn stori arall i'm cof.

Yn nyddiau fy nhadcu, arweiniai llwybr cyhoeddus drwy fynwent Llan Gregyn. Un dydd, bu ef a minnau yn torri bedd wrth gyfyl y llwybr hwn. Ar y noson honno, tua naw o'r gloch, digwyddodd dyn, ar ei daith adref o'r ' Red Lion ' dramwy drwy'r fynwent. Dan effeithiau'r cwrw coch gŵyrodd lawer i'r dde a'r aswy, a llithrodd i'r bedd.

Yn ôl hen ddull y Cymry dygai'r dyn hwn lawer o enwau. Pan syrthiodd i'r bedd, dychrynwyd ef, a gwaeddodd nerth ei geg yn daer am gymorth.

Safai ein bwthyn ni, yn darawiadol iawn, wrth ymyl y fynwent. Ar y pryd yr oeddwn i yn y gwely. Gwëai fy mamgu ei hosan o flaen y tân. Yn ei gadair freichiau, pendwmpian a wnai fy nhadcu. Dihunodd yr hen wraig ef, a cherddodd yntau i garreg y drws i gael esboniad ar y lleisiau aflafar. " Pwy sy na ? " meddai.

" Ifan Sion Gruffydd Sion Morris," oedd ei ateb.

" Diain i," ebr fy nhadcu, yn swta, rhwng cwsg ag effro. " Mi wela y'ch bod chi'n llawer na. Wel, helpwch y'ch gilydd mas, te."

Dweud yr oeddwn am ddyn yn syrthio i fedd agored. Dyma helynt arall mewn amgylchiadau tebyg. Yr oedd Twm yr ' *Ocean Queen* ' yn feddw fawr. Ymadawodd â'r ' *Red Lion* ' gan gerdded drwy lwybr y fynwent, tua deg o'r gloch y nos. Y dydd hwnnw agorais fedd newydd, wrth ymyl.

Trannoeth, yn blygeiniol, a haul Gorffennaf yn gwenu, yr adar yn canu, cerddais i gael golwg ar y bedd. Nid yn hawdd yr anghofiaf yr olygfa. Ar ei gefn yng ngwaelod y bedd, a'i lygaid yn wyllt, gorweddai Twm, druan. Pan welodd fi, dywedodd yn frysiog,—" Tomos, er mwyn y mowredd, tyn fi allan ! " Estynnais ysgol iddo, ac wedi iddo gael hamdden dywedodd iddo gael ei ddychrynu i gredu mai borau'r Farn Fawr ydoedd hi. A doniol oedd ei brofiad wrth ddisgwyl am ddyfodiad yr archangel, Gabriel, i'w godi.

(*I'w barhau.*)

Marwgofion.

Gorffennaf 26 ar ôl ychydig ddyddiau o gystudd caled ABRAHAM LLEWELYN, baban annwyl Gwilym James a Mary Evans, Henbant-uchaf, Capel Dewi, Llandysul, yn 16 mis oed. Cydymdeimlir yn fawr â'r teulu yn eu hiraeth. Claddwyd yr Iau dilynol yn Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a S. E. Bowen. " Eiddo'r cyfryw rai yw teyrnas nefoedd ".

Awst y 12fed bu farw JOHN JONES, Crosshands, Cwrtnewydd, yn 69 oed—a dydd Llun dilynol claddwyd y rhan farwol o honno ym mynwent Capel-y-Bryn, pryd y gwasanaethwyd gan y Gweinidog y Parch. S. E. Bowen, a chynorthwywyd ef gan y Parchn. E. O. Jenkins, Lewis Williams a E. Griffith Jones. Un o hên breswylwyr y pentref oedd John Jones, wedi cael ei eni a'i fagu ac wedi byw drwy gydol ei oes yn y lle. Teiliwr wrth ei alwedigaeth a daeth hyn ag ef i adnabyddiaeth agos â nifer luosog yn y cymydogaethau, ac adnabyddid ef fel dyn llawen a chymwynaswr parod. Yr oedd hyn yn amlwg iawn yn ei gysylltiad a'r achos yn y lle, lle y bu yn was ffyddlon, ac yn gynorthwyol iawn gyda'r mân ddyletswyddau, ond serch hynny yn ddyletswyddau urddasol am eu bod yn wir angenrheidiol. Am flynyddau efe oedd athro y plant bach yn yr Ysgol Sul, ac ef oedd y diacon oedd yn gofalu fod gan bob ymwelwr yn y gwasanaeth lyfr emynau yn ei law. Gwelir ei eisiau yn fawr mewn llawer i ffordd. Yr oedd y gynulleidfa luosog ar ddydd ei angladd yn dystiolaeth amlwg o'r parch oedd iddo. Gadawodd dri mab, dwy ferch, nifer o wyrion, a brawd a llawer o berthynasau eraill mewn hiraeth ar ei ôl.

Sul, Awst 15, EVAN JONES, Glanrafon, Cambrian Terrace, Llandysul, yn 51 oed. Yn herwydd ei waeledd symudwyd ef i Castellhywel Arms, hen gartref ei briod, yn y gobaith y buasai ychydig newid o fantais iddo yn ei ymdrech fawr at wella. Yma cafodd bopeth fedrai ei briod a'i rieni ynghyfraith wneud drosto ond gwaethygu wnaeth o ddydd i ddydd ac yma y bu farw ar ôl chwech mis o gystudd caled. Saer oedd wrth ei alwedigaeth a chyfrifid ef yn bencrefftwr. Ers blynyddoedd efe oedd yr hyfforddwr mewn gwaith coed yn yr Ysgol Ganol, Llandysul a llanwai ei le i foddlonrwydd pawb. Yr oedd yn Eglwyswr selog ac ni fynnai golli'r Ysgol Sul oni fyddai gwir rwystr ar ei ffordd, a'r Ficer, y Parch. D. A. Thomas, Llandysul gymerodd y rhan bwysicaf o'r gwasanaeth ddydd ei angladd. Cynorthwywyd ef gan y Parchn. E. O. Jenkins, W. D. Davies (E), Llanddewi-brefi, J. Marles Thomas a E. Gwilym Evans. Claddwyd ym mynwent Capelyfadfa y Mercher dilynol. Gadawodd i alaru ei golli briod (aelod ffyddlon yn y Graig, Llandysul), mab, merch, brawd, dwy chwaer a llawer o berthynasau ereill.

Awst 30, bu farw MARGARET LEWIS, Salford House, White Street, Dowlais, ar ôl misoedd o gystudd caled, yn 77 oed. Merch ydoedd i'r diweddar John a Mary Lewis, o'r unlle, a chwaer i'r diweddar Mrs. Evans, o Gwmiago. Dygpwyd ei chorff i gladdfa'r teulu yng Nghapelygroes y dydd Iau dilynol. Yn Nowlais daeth nifer luosog ynghyd o'r cymdogion i dalu iddi eu cymwynas olaf; yn Nghapelygroes, anghyhoedd oedd y gladdedigaeth. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan Mr. Hathren Jones, myfyriwr; yn y capel, gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch. E. Griffith Jones.

Awst 31, bu farw MARGARET JENKINS, o Lundain, ynghartref ei mam yn Abernant, ar ôl cystudd hir a chaled yn 40 oed, gan adael tri o blant a phriod, mam, chwiorydd a brodyr a llu o berthynasau mewn galar o'i cholli. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Capelygroes, y Sadwrn canlynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y Capel gan y Gweinidog y Parch. E. Griffith Jones ac ar lan y bedd gan y Parch. David Evans.

Yn Abernant gwnaeth dant llym du—falu
Nwyf eilun wnaem garu,
A daeth aelwyd ei theulu
Wyry lon dan ddagrau lu.

Un egwyl ni chânt ragor—o'i harddwch
Ei 'fforddiant na'i chyngor;
O'r gwaelu rhyw wag elor
Ddu oer ddaw o ddôr i ddôr. Cribin Bach.

Nodion yr Eglwysi.

UNDODIAID CYMREIG LLUNDAIN.—Cynhelir gwasanaeth Cymraeg yng nghapel Undodaidd Stamford St., Llundain, dydd Sul, Hydref 3 am 4 o'r o'r gloch y prynhawn. Gwasanaethir gan y Parch. T. L. Jones. Dyma'r cyntaf o dri gwasanaeth (o leiaf) yn ystod y gaeaf hwn a thaer erfynnir am bresenoldeb y cyfeillion Undodaidd yn Llundain. Gweler hysbysiadau pellach yn YR YMOFYNNYDD ac yn y "Welsh Gazette". Yr orsaf agosaf ar yr un ochr i'r afon ydyw Waterloo ac mae Blackfriars ar yr ochr arall i'r afon yn agosach fyth.

CYMANFAOEDD CERDDOROL UNDODIAID CEREDIGION A MORGANNWG.—Mewn pwyllgor a gyfarfu yng Nghapelybryn Sul, Awst 15, dewiswyd a ganlyn i fod yn gynnwys Rhaglenni y Cymanfaoedd uchod am 1938 :—(1) Gorof, Emyn 404 ; (2) Lydia, Emyn 42 (Hen Berlau Moliant) ; (3) Pennant (Osborne Roberts) ; (4) In Memoriam (Caradog Roberts) ; (5) Aberteifi, Emyn 157 ; (6) Arwelfa, Emyn 249 ; (7) Aberporth, Emyn 261 ; (8) Gobaith y Cristion, Emyn 260 ; (9) Tyddewi, Emyn 40 ; (10) Old Chapel (New Hymnal 578) ; (11) St. Thomas, Emyn 301 ; (12) Eventide, Emyn 346 ; (13) "O Llefara" (J. S. Bach) ; (14) Denis, Emyn 4 ; *Tonau y Plant* : Haslemere (Caniedydd yr Ysgol Sul) ; "Mae popeth yn dda" (Perlau Moliant) ; "Y Gorlan Glyd" ; "Canu i'r Iesu" (Matthew Davies) ; "Cân y Saint" (T. Carrington) ; "Pan ddaeth yr addfwyn Iesu." Cynhelir Cymanfa Ceredigion yn Llandysul, Mehefin 13, 1938. Wele restr o'r Anthemau a'r Swyddogion :—*Anthemau* : (*a*) "We never will bow down" (Handel); (*b*) "Croesi'r Dyffryn" (E. T. Davies); (*c*) "Remember now thy Creator". *Arweinydd*—Mr. Ivor Owen, Abertawe. *Llywyddion, Bore*—Mrs. Davies, Faerdre ; *Prynhawn*—Henadur Josiah Jones, Y.H. ; *Hwyr*—James Jones, Ysw., Llandysul.

RHYDYGWIN A CHILIAU AERON.—Ar y 18 o Awst ymunodd pobl a phlant yr eglwysi hyn i fyned ar bleserdaith i Abertawe. Yn garedig fel ag yw bob amser gwnaeth ein cyfaill, Dr. T. Evans, M.O.H., Parc, Ciliau Aeron ac Abertawe, drefnu i ni gael gweled y Guild Hall yn Abertawe. Pan gyrhaeddwyd y lle hwn yr oedd goruchwyliwr yr adeilad yn barod i'n harwain drwy bob ystafell yno, a disgrifio popeth perthynol i bob un o'r ystafelloedd. Yr oedd yno gelfyddyd o'r radd uchaf ymhob ystafell, a sicr yw nad oedd y rhan fwyaf ohonom wedi gweled y fath addurnwaith o'r blaen. Gelwir un rhan o'r adeilad yn Brangwyn Hall. Yn yr ystafell hon y mae y Brangwyn Panels. Gwaith Mr. Frank Brangwyn, un o arlunwyr enwocaf y byd, ac o drâs Cymreig, yw y darluniau yno. Mae y darluniau hyn yn arddangos bywyd gwahanol wledydd y byd. Mae yr adeilad o faintioli mawr iawn ; cynhwysa holl swyddfeydd bwrdeisdref Abertawe. Mae yr ystafell sydd at wasanaeth Maer ac aelodau Cyngor y dref yn hynod o brydferth, ac felly hefyd yr ystafell ginio : mae hon yn un eang iawn. Bu y Brenin a'r Frenhines yn ciniawa yn hon pan ar ymweliad yn ddiweddar â'r lle. Dywedodd y goruchwyliwr fod y llusernau yn un o'r ystafelloedd yn pwyso pymtheg cant yr un. Arweiniwyd ni i lys y gyfraith, a dangoswyd i ni gelloedd troseddwyr y gyfraith. Ar ôl dod allan o'r adeilad datganodd un ein bod wedi gweled un o olygfeydd prydferthaf y byd. Dychwelwyd gan deimlo ein bod wedi cael pleserdaith yng ngwir ystyr y gair.

LLONG BAPUR.

"Y llong fach ollyngaf fi—i fynwes
Y Fenai uchelfri ;
O mor llon mae ar y lli !
A dawns y don sy dani.

[*O 'Gofiant Gwili.'*]

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. MC LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. 7/6 net (by post 8/-). Leather bound, gilt edges, 10/6 (by post 11/-). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price 1/- (by post 1/1). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price 1/- (by post 1/1). Cloth, 2/- (by post 2/2).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price 6d. (by post 7d).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. 1/- each (by post 1/1).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

Cecil Jones, F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street

ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.